| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **5 Tachwedd 2014** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Polisi Gwrth-dwyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo** |

---

## 1 Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn ymwneud â diwygiadau i Bolisi Gwrth-dwyll a Llygredigaeth y Cyngor.

## 2 Beth yw’r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

2.1 Galluogi Aelodau i ystyried y Polisi Gwrth-dwyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo diweddar.

## 3 Beth yw’r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys y Polisi Gwrth-dwyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyaeth drafft ac yn ei argymell i'w gymeradwyo gan y Cabinet.

## 4 Manylion am yr adroddiad.

4.1 Mae'r Cyngor yn cyflogi dros 4,000 o staff ac yn gwario tua £ 250 miliwn y flwyddyn. Mae'n comisiynu ac yn darparu ystod eang o wasanaethau i unigolion a chartrefi ac yn gweithio gydag ystod eang o sefydliadau yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol.

4.2 Fel gydag unrhyw sefydliad mawr arall, mae maint a natur gwasanaethau’r Cyngor yn golygu bod yna risg barhaus o golled oherwydd twyll a llygredd o ffynonellau mewnol ac allanol. Mae yna hefyd risg barhaus o lwgrwobrwyo gan fod y Cyngor yn darparu ac yn caffael nwyddau, gwaith a gwasanaethau. Felly, mae'r Cyngor wedi rhoi systemau cymesur ar waith i leihau'r risg hwn a chaiff y rhain eu hadolygu'n gyson. Mae'r systemau a’r gweithdrefnau hyn wedi’u nodi yn y canllawiau ym mharagraff 5.12.

4.3 Mae'r Cyngor yn cydnabod, yn ogystal ag achosi colled ariannol, bod twyll a llygredd hefyd yn niweidiol i ddarpariaeth gwasanaethau a’i fod yn niweidio enw da'r Cyngor a chyrff cyhoeddus yn gyffredinol.

4.4 Mae Polisi diwygiedig drafft ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Arferai’r polisi fod yn ddogfen sengl hir. Mae'r Polisi wedi cael ei rannu’n ddwy ddogfen.

Mae’r cyntaf yn Atodiad 1 yn ddatganiad o Bolisi sy'n cynnwys y prif egwyddorion y bydd y Cyngor yn mynd i’r afael â thwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth. Mae'r ail ddogfen i’w gweld yn Atodiad 2 i'r adroddiad hwn ac mae’n ddogfen gyfarwyddyd sy’n egluro’r cefndir a'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd yn eu lle i gefnogi'r Polisi.

4.5 Mae'n bwysig bod unrhyw bolisi sy'n honni ei fod yn gwrthsefyll y bygythiad o dwyll a llygredd yn cael ei ddiweddaru a'i adolygu yng ngoleuni datblygiadau deddfwriaethol, technolegol a phroffesiynol newydd.

4.6 Cymeradwywyd Polisi presennol Gwrth-dwyll a Llygredigaeth y Cyngor yn 2006.

4.7 Bydd Aelodau'n sylwi bod teitl y Polisi wedi cael ei ddiwygio i gynnwys cyfeiriad at lwgrwobrwyo. Mae hyn er mwyn ystyried newidiadau i ddeddfwriaeth a ddaeth yn sgil Deddf Llwgrwobrwyo 2010. Mae'r canllawiau hefyd yn ystyried canllawiau arfer gorau, fel "Llyfr Coch 2 - Rheoli'r Risg o Dwyll" gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

4.8 Yn y Datganiad Polisi a'r gweithdrefnau sy'n ei gefnogi, mae'r Cyngor yn rhoi neges glir na fydd yn goddef unrhyw amhriodoldeb gan weithwyr, aelodau etholedig na sefydliadau trydydd parti.

4.9 Er bod y Cyngor wedi profi lefel gymharol isel o weithgarwch twyllodrus a ganfyddir yn y blynyddoedd diwethaf, mae'n bwysig iawn bod yn wyliadwrus a bod yr holl weithwyr, aelodau etholedig a phartneriaid yn ymwybodol o sut i roi gwybod am bryderon neu amheuon. Mae'r canllawiau yn Atodiad 2 yn rhoi cyngor clir ynghylch sut, ac i bwy, y dylid rhoi gwybod am amheuon. Yn ogystal, mae datganiad clir o ymrwymiad y Cyngor i gymryd camau gorfodi cadarn lle caiff gweithgaredd anghyfreithlon neu lygredig ei ganfod.

4.10 Bydd y Cyngor yn parhau i addasu a mabwysiadu dull rhagweithiol o atal gweithgareddau twyllodrus a bydd Archwiliad Mewnol yn cynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y rheolaethau hyn.

## 5 Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Nid yw’r penderfyniad yn cyfrannu'n uniongyrchol at y blaenoriaethau corfforaethol, fodd bynnag, mae ymagwedd gadarn tuag at y risg o dwyll a llygredd yn cefnogi'r Cyngor o ran cyflawni ei flaenoriaethau drwy geisio lleihau'r risg o niwed ariannol ac enw da y gall twyll a llygredd ei achosi.

## 6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

## 7 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd, ac a gynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?

7.1 Nid oes angen asesiad o effaith ar gydraddoldeb.

**8 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

8.1 Mae'r Polisïau hyn yn helpu i wella fframwaith llywodraethu a sicrwydd y Cyngor.

**9 Pa risgiau sy'n bodoli, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

9.1 Y risg o beidio â diweddaru'r Polisi yw na fydd gan y Cyngor strategaeth ddiweddar i frwydro yn erbyn twyll a llygredd.

**10 Pŵer i wneud y Penderfyniad**

10.1 Adrannau 111 a 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972.